

Gwybodaeth am yr HCPC

Mae Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn rheoleiddiwr statudol ar gyfer 15 o broffesiynau iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig, a'i rôl yw amddiffyn y cyhoedd.

Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 ydy'r sylfaen ar gyfer ein rôl a'n cylch gwaith. Rydym yn hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel, gan reoleiddio dros 300,000 o unigolion cofrestredig ar draws 15 proffesiwn gwahanol drwy:

- osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ymarfer gweithwyr proffesiynol;
- cymeradwyo rhaglenni addysg y mae rhaid i weithwyr proffesiynol eu cwblhau er mwyn cofrestru gyda ni;
- cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol, sef yr unigolion cofrestredig, sydd yn bodloni ein safonau;
- gweithredu os nad ydy gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr yn bodloni ein safonau;
- ac atal ymarferwyr nad ydynt yn gofrestredig rhag defnyddio teitlau proffesiynol a ddiogelir

Y 15 proffesiwn iechyd a gofal yr ydym yn eu rheoleiddio ydy:

- Therapyddion celf
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ciropodyddion/podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Deietegwyr
- Cyflenwyr cymhorthion clyw
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr adrannau llawfeddygol
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Ymarferwyr seicoleg
- Prosthetwyr/orthotyddion
- Radiograffwyr
- Therapyddion iaith a lleferydd

Adroddiad Gorfodol dan safon 66

Fel rhan o'n rhwymedigaeth dan safon 66, yn ystod y cyfnod o'r dyddiad cydymffurfio hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, gwnaethom gofnodi'r canlynol:

nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn dan sylw (1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026) a oedd yn gysylltiedig â chydymffurfio â'r safonau	0
nifer y cyflogeion sydd yn meddu ar sgiliau Cymraeg (yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026)	mae 3 chyflogai wedi dweud eu bod yn gwbl hyfedr yn y Gymraeg mae 5 yn deall Cymraeg ar lefel sylfaenol
nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 63) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—	
(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;	0
(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;	0
(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu	1
(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	409